Trawsfynydd Site Stakeholder Group (SSG)
Emergency Arrangements Report - June 2016

Changes since last meeting

At the last Site Stakeholder Group (SSG) meeting in December we informed you of the imminent approval of a new Emergency Plan reflecting the Office of Nuclear Regulations (ONR) Report of Assessment (RoA) that an 'Off Site' Nuclear Emergency was not reasonably foreseeable at Trawsfynydd Site, and therefore an off-site plan was no longer necessary.

We would like to inform the Stakeholder Group that we received a Licence Instrument and implemented the Emergency Plan on 21st January 2016.

We also made you aware that Magnox had been working on reducing the level of 'Off Site' support to a level more appropriate to the remaining hazards at sites and has now received ONR approval to implement the change company wide. This change removed the requirement to automatically set up a Central Emergency Support Centre (CESC) if any site declared a Site Incident state and replaced it with a smaller scale Central Support Cell (CSC) as and when required. This change came into effect on the 28th March 2016.

The emergency planning central support team has recently been reduced. This will put more reliance on each site to be more proactive in governance & stakeholder management.

Emergency Planning Consultative Committee meeting

At the 48th EPCC we were introduced to our new incoming ONR Inspector Nick Blackburn and we have since had a very productive 'on-site' meeting which was used to outline his expectations from the site going forward.

Site Exercises

Trawsfynydd Site has now completed three shift exercises including a very successful visit involving the Fire Service. Three tenders came to site to deal with a simulated fire and four missing persons within the Administration Building. They managed to extinguish the fire and recover the 4 persons within one hour from the start of the event.

Lookahead

Emergency Arrangements will be changing through the year by implementing a set of Contingency Plans across the site. This move will ensure that all sub-contractors are self-sufficient for their own personnel in any form of accident or emergency, and less reliant on the Site to recover from the event. This could be as simple as a cut finger first aid event or as difficult as someone suspended whilst working at height. We have already assessed a number of scenarios practising these new arrangements which have been very productive and successful. These exercises will continue, leading to a demonstration exercise later in the year.

Simon Dawson
Emergency Preparedness Officer
Trawsfynydd Site

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd (GRhS)
Adroddiad Trefniadau Argyfwng - Mehefin 2016

Newidiadau ers y cyfarfod diwethaf

Yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle (GRhS) diwethaf ym mis Rhagfyr fe'ch hysbyswyd fod Cynllun Argyfwng newydd ar fin cael ei gymeradwyo a fyddai'n adlewyrchu Adroddiad o Asesiad (RoA) y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) na ellid yn rhesymol ragweld Argyfwng Niwclear 'Oddi ar y Safle' yn Safle Trawsfynydd, ac felly nid oedd angen am gynllun oddi ar y safle mwyach.
Hoffem hysbysu'r Grŵp Rhanddeiliaid ein bod wedi cael Offeryn Trwydded a'n bod wedi rhoi'r Cynllun Argyfwng ar waith ar 21 Ionawr 2016.

Mi oeddem wedi'ch hysbysu hefyd bod Magnox wedi bod yn gweithio i leihau lefel y cymorth 'Oddi ar y Safle' i lefel a oedd yn fwy priodol ar gyfer y peryglon sy'n weddill ar y safle a'n bod yn awr wedi cael cymeradwyaeth yr ONR i weithredu'r newid ar draws y cwmni cyfan. Roedd y newid hwn yn diddymu'r gofyniad awtomatig i sefydlu Canolfan Cymorth Argyfwng Canolog (CESC) pe bai unrhyw safle'n cyhoeddi cyflwr Digwyddiad Safle ac mae wedi'i ddisodli gan Gell Cymorth Canolog (CSC) lai yn ôl y galw. Daeth y newid hwn i rym ar 28 Mawrth 2016.

Cafodd maint y tîm cymorth argyfwng canolog ei leihau'n ddiweddar. Bydd hyn yn golygu mwy o ddibyniaeth ar bob safle i fod yn fwy rhagweithiol o ran llywodraethu a rheoli rhanddeiliaid.

Cyfarfod o'r Pwyllgor Cynghori Cynllunio Argyfwng

Yn y 48fed EPCC cawsom ein cyflwyno i'n Harolygydd ONR newydd Nick Blackburn ac ers hynny rydym wedi cael cyfarfod cynhyrchiol iawn 'ar y safle' a ddefnyddiwyd i amlinellu ei ddisgwyliadau o'r safle am y dyfodol.

Ymarferion ar y Safle

Mae Safle Trawsfynydd bellach wedi cwblhau tri ymarferiad shifft gan gynnwys ymweliad llwyddiannus iawn a oedd yn cynnwys y Gwasanaeth Tân. Daeth tair injan dân i'r safle i ddelio â thân ffug lle'r oedd pedwar unigolyn ar goll yn yr Adeilad Gweinyddu. Llwyddwyd i ddiffodd y tân ac achub y 4 unigolyn o fewn awr i gychwyn y digwyddiad.

Edrych ymlaen

Bydd Trefniadau Argyfwng yn newid trwy'r flwyddyn yn sgil cyflwyno set o Gynlluniau Wrth Gefn ar y safle. Bydd y newid hwn yn sicrhau bod yr holl isgontractwyr eu hunain yn gyfrifol am eu staff mewn unrhyw fath o ddamwain neu argyfwng, ac yn llai dibynnol ar y Safle i adfer y sefyllfa ar ôl y digwyddiad. Gallai hyn fod mor syml â chymorth cyntaf ar ôl i rywun dorri ei fys neu rywbeth mor anodd â rhywun wedi'i adael yn hongian tra'n gweithio'n uchel. Rydym eisoes wedi asesu nifer o sefyllfaoedd gan ymarfer y trefniadau newydd hyn a bu hynny'n ymarferiad cynhyrchiol a llwyddiannus iawn. Bydd yr ymarferion hyn yn parhau, gan arwain at ymarferiad arddangos rywbryd yn y dyfodol.

Simon Dawson
Swyddog Parodrwydd am Argyfwng
Safle Trawsfynydd